Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Priory House**

**Priory House**
**Aberdaugleddau**
**SA73 3UA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

02/06/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Gofal Priory House

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Priory Project Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 9 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 30/03/2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn fodlon iawn ar y gofal a'r cymorth a ddarperir yn Priory House ac yn canmol y staff gofal. Caiff y bobl eu hannog yn weithredol i wneud dewisiadau am sut maent yn byw eu bywydau ac yn treulio eu hamser. Mae'r staff gofal yn trin y bobl ag urddas a pharch, ac mae ganddynt ddealltwriaeth o anghenion y bobl y maent yn eu cefnogi. Mae'r dogfennau gofal yn gywir ac yn gyfredol, gan helpu staff gofal i ddarparu gofal a chymorth o ansawdd da. Mae'r staff gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau ac yn cael hyfforddiant, felly maent yn parhau'n ddigon medrus. Mae proses recriwtio ddiogel yn sicrhau bod gan y staff gofal y rhinweddau a'r sgiliau angenrheidiol i weithio gyda phobl agored i niwed. Er bod Unigolyn Cyfrifol wrth ei waith, rhaid cryfhau'r trefniadau llywodraethu a sicrhau ansawdd er mwyn gweld goruchwyliaeth gadarn o'r gwasanaeth. Caiff yr amgylchedd ei gynnal i safon dda iawn, gan wella llesiant y bobl sy'n byw yn y cartref.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag niwed a chamdriniaeth, cyn belled â phosibl. Mae'r bobl yn cael asesiadau risg a chynlluniau rheoli sy'n helpu i'w cadw'n iach ac yn ddiogel. Er bod asesiadau risg yn ymwneud ag anghenion gofal y bobl ar waith, mae angen datblygu risg sy'n gysylltiedig â'u gweithgareddau unigol, fel ymweld â chaffis lleol, bowlio neu fynd allan yn y car. Mae'r staff gofal yn derbyn hyfforddiant ar ddiogelu ac mae polisi diogelu ar waith sy'n gyson â chanllawiau statudol cenedlaethol. Mae'r staff gofal y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran diogelu a'r broses o godi pryderon.

Rhoddir cymorth i'r bobl gyda'u hiechyd a'u llesiant. Mae'r staff gofal yn adnabod y bobl y maent yn eu cefnogi yn dda ac yn gallu adnabod unrhyw newidiadau i'w hiechyd corfforol neu feddyliol yn gyflym. Gwelsom dystiolaeth y gofynnir am gyngor yn brydlon gan y gweithwyr proffesiynol perthnasol, fel meddygon teulu, arbenigwyr iechyd a gweithwyr cymdeithasol, pan fo angen. Mae systemau rheoli meddyginiaeth ar waith er mwyn sicrhau y caiff meddyginiaeth y bobl ei storio a'i rhoi yn ddiogel.

Caiff y bobl leisio eu barn a chânt eu trin ag urddas a pharch. Ac mae'r bobl a / neu eu perthnasau a'u cynrychiolwyr yn rhan o'r gwaith o gynllunio eu gofal a chyfrannu at adolygiadau o'u gofal. Mae'r cynlluniau personol yn gyfredol ac yn adlewyrchu anghenion presennol y bobl yn gywir. Cynhelir cyfarfodydd â phreswylwyr lle caiff y bobl gyfle i leisio eu barn. Ymgynghorir â'r bobl yn rheolaidd hefyd. Mae adborth cadarnhaol gan y bobl mewn perthynas â staff gofal yn nodi eu bod yn garedig, yn barchus ac yn wybodus.

Mae'r bobl yn byw mewn cartref sy'n cefnogi eu llesiant. Mae Priory House yn lân ac yn gyfforddus drwyddi draw. Mae yna ardd agored a gynhelir yn dda, ac ardal batio fawr y gall pobl ei defnyddio pan fyddant yn dewis gwneud hynny. Gall y bobl bersonoli eu hystafelloedd fel y mynnont. Mae'r ystafelloedd cymunedol yn gartrefol ac wedi'u haddurno'n dda. Caiff y cartref ei gynnal i safon uchel. Mae rhaglen cynnal a chadw, gwiriadau a gwasanaethu parhaus yn hyrwyddo diogelwch yr amgylchedd.

## Gofal a Chymorth

Mae gan yr holl bobl sy'n byw yn y gwasanaeth gynlluniau personol. Maent yn nodi'r ffyrdd gorau o gefnogi'r bobl er mwyn cyflawni eu canlyniadau dynodedig. Mae'r cynlluniau personol yn canolbwyntio ar yr unigolyn, sy'n golygu eu bod wedi'u teilwra'n benodol i bob unigolyn. Gwnaethom archwilio detholiad o gynlluniau personol a chanfod eu bod yn glir ac yn gryno. Caiff asesiadau risg sy'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth gofal eu cynnwys hefyd. Mae'r rhain yn tynnu sylw at risgiau a strategaethau posibl i gadw pobl yn ddiogel. Dywedodd y staff gofal y gwnaethom siarad â nhw fod eu cynlluniau personol yn cynnwys y lefel iawn o wybodaeth iddynt ddarparu gofal a chymorth effeithiol. Caiff y cynlluniau personol eu hadolygu i sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol. Gwelsom dystiolaeth fod y bobl a'u perthnasau yn cymryd rhan mewn adolygiadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, lle caiff effeithiolrwydd eu cynllun gofal ei drafod, ynghyd ag unrhyw newidiadau y gallai fod angen eu gwneud.

Mae gan y bobl gydberthnasau da iawn â'r staff gofal. Gwelsom sawl enghraifft o ryngweithio cadarnhaol rhwng y bobl a'r staff gofal drwy gydol ein harolygiad. Roedd yn amlwg bod y staff gofal yn adnabod y bobl y maent yn eu cefnogi yn dda a'u bod yn gyfarwydd â'u hanghenion a'u harferion dyddiol. Gwelsom y staff gofal yn rhyngweithio â'r bobl mewn sgyrsiau ystyrlon, gan siarad mewn modd cyfeillgar a pharchus. Rhoddodd y bobl a'u perthnasau glod yn gyson mewn perthynas â staff gofal.

Mae systemau rheoli meddyginiaeth yn effeithiol, gan sicrhau y caiff meddyginiaeth ei storio a'i rhoi yn ddiogel. Caiff meddyginiaethau eu storio'n ddiogel a chaiff tymereddau eu cofnodi. Mae gan y bobl gynlluniau cymorth meddyginiaeth yn rhoi manylion am sut a phryd y maent yn cymryd eu meddyginiaeth. Ceir polisi meddyginiaeth ac mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant i'w helpu i roi meddyginiaeth yn unol â chanllawiau arfer gorau. Gwnaethom edrych ar ddetholiad o gofnodion rhoi meddyginiaeth, a gwelsom eu bod wedi'u cwblhau'n gywir. Mae hyn yn nodi bod pobl yn cael eu meddyginiaeth yn unol ag argymhellion y rhagnodwr.

Mae gwybodaeth ysgrifenedig ar gael i'r bobl ei gweld. Mae'r datganiad o ddiben yn nodi nodau ac amcanion y gwasanaeth ac yn dangos sut y gall ddiwallu'r ystod o anghenion y mae'r gwasanaeth yn darparu ar eu cyfer.

## Yr Amgylchedd

Gall Priory House letya hyd at naw unigolyn ac mae'r cartref dros ddau lawr. Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn elwa ar amgylchedd cyfforddus, cartrefol, a gynhelir yn dda. Mae'r ardaloedd cymunedol yn lân, ac wedi'u haddurno a'u dodrefnu i safon dda iawn. Gwnaethom siarad â'r bobl yn yr ystafell fwyta gymunedol ac yn eu hystafelloedd eu hunain. Roedd golwg cyfforddus ac ymlaciol arnynt ac roeddent yn rhyngweithio mewn ffordd ddigymell a hawdd gyda'r staff gofal a gyda'i gilydd. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn fodlon iawn ar yr amgylchedd a'i gyfleusterau. Mae ystafelloedd gwely'r bobl yn olau, yn agored ac wedi'u personoli â phethau sy'n adlewyrchu eu chwaethau a'u diddordebau. Mae'r rhain yn cynnwys lluniau, ornamentau ac eitemau eraill o bwys. Mae'r holl ardaloedd personol a chymunedol yn lân ac yn rhydd o annibendod. Mae yna ardd a gynhelir yn dda sy'n ddiogel i'r bobl gerdded neu eistedd ynddi os dymunant. Gall y bobl ddefnyddio'r lle hwn i ymlacio neu i gymryd rhan mewn gweithgareddau.

Mae rhaglen dreigl o wiriadau a gwaith cynnal a chadw i sicrhau bod yr amgylchedd, ei gyfleusterau a'i gyfarpar yn ddiogel. Caiff cyfleustodau fel nwy a thrydan eu harchwilio'n rheolaidd gan bobl sydd â chymwysterau priodol ac mae ganddynt yr ardystiad diogelwch angenrheidiol ar waith. Mae digon o le storio ar gael a chaiff sylweddau peryglus i iechyd eu storio'n ddiogel. Mae'r cartref yn ddiogel rhag mynediad heb awdurdod gydag ymwelwyr yn gorfod llofnodi i mewn wrth gyrraedd a llofnodi allan wrth adael.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r staff gofal yn destun proses recriwtio sy'n gwneud yn siŵr eu bod yn addas i weithio gyda phobl agored i niwed. Gwnaethom edrych ar nifer o ffeiliau personél a gwelsom fod y gwiriadau cyn cyflogaeth angenrheidiol wedi cael eu cynnal. Mae'r gwiriadau hyn yn cynnwys geirdaon gan gyflogwyr blaenorol, hanes cyflogaeth flaenorol a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Wrth ddechrau cyflogaeth, rhaid i'r cyflogeion newydd gwblhau rhaglen sefydlu a chyfnod prawf. Mae'n ofynnol i'r staff gofal gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, sef rheoleiddiwr y gweithlu, i sicrhau bod ganddynt gymwysterau addas.

Mae'r staff gofal wedi'u hyfforddi'n dda i ddiwallu anghenion y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth ac i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. Caiff y staff gofal hyfforddiant craidd a hyfforddiant arbenigol. Mae hyfforddiant craidd yn cwmpasu pynciau cyffredinol fel iechyd a diogelwch a diogelu. Mae hyfforddiant arbenigol yn benodol i anghenion y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth, fel epilepsi a rheoli ymddygiad. Gwnaethom edrych ar y cofnodion yn ymwneud â hyfforddiant a gwelsom fod y gwasanaeth yn cydymffurfio i raddau helaeth â'i ofynion hyfforddiant. Gwnaethom edrych hefyd ar gofnodion yn ymwneud â goruchwyliaeth ac arfarnu a gwelsom fod y staff gofal yn cael y lefelau gofynnol o gymorth ffurfiol ar y cyfan. Dywedodd y staff gofal y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo y cânt eu cefnogi'n dda yn eu rolau gan y rheolwyr a'u cydweithwyr. Rhoesant wybod am ymdeimlad cadarnhaol o forâl ymhlith y tîm gan ddweud bod y cartref yn lle da iawn i weithio ynddo.

Mae rhai mesurau llywodraethu a sicrhau ansawdd ar waith i helpu'r gwasanaeth i redeg yn llyfn. Mae'r ymddiriedolwyr ar gyfer y gwasanaeth yn ymweld unwaith y mis, ar sail cylchdro, ac yn siarad â'r rheolwr, y staff a'r bobl sy'n byw yn y cartref. Maent yn gyfarwydd iawn â'r bobl sy'n byw yn Priory House a gyda'r staff gofal. Yn dilyn eu hymweliadau, bydd yr ymddiriedolwyr yn cwblhau templed i gofnodi eu canfyddiadau a thrafod unrhyw faterion â'r rheolwr. Mae gan yr Unigolyn Cyfrifol rywfaint o oruchwyliaeth o'r ddarpariaeth gwasanaeth ac mae'n ymweld â'r cartref ond nid oes trefniant ffurfiol iddi ymweld er mwyn cyfarfod ag aelodau o'r staff a'r preswylwyr unwaith bob tri mis o leiaf fel y bo'n ofynnol. Yn ogystal, rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol lunio adroddiadau ar ansawdd y gofal bob chwe mis, ar ôl iddi ymgysylltu â'r bobl sy'n byw yn y cartref ac â phobl berthnasol eraill, fel cynrychiolwyr y bobl, comisiynwyr gwasanaethau a'r staff a gyflogir yn y gwasanaeth. Rhaid i'r adroddiadau hyn roi sylwadau ar ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir, gan gynnwys meysydd cryfder a lle y gallai'r gwasanaeth ddatblygu ymhellach. Nid yw'r meysydd o ddiffyg cydymffurfio hyn i weld yn cael effaith sylweddol ar iechyd a llesiant y bobl sy'n byw yn y cartref. Felly, rydym wedi'u nodi'n feysydd i'w gwella ac rydym yn disgwyl i'r unigolyn cyfrifol gychwyn trefniadau cadarn ar gyfer ymweld, monitro a gwella'r gwasanaeth erbyn yr arolygiad nesaf.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 80 | Nid oes gan yr unigolyn cyfrifol drefniadau ar waith i sefydlu a chynnal system i fonitro, adolygu a gwella ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan y gwasanaeth. | Newydd |
| 73 | Nid yw'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r cartref gofal o leiaf unwaith bob tri mis i gyfarfod â'r bobl a'r staff gofal. | Newydd |

## A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 14/08/2023